# Ordinhad 31

# Graddau er Anrhydedd a Chymrodoriaethau er Anrhydedd

| | |
|---|---|
| **Y Corff Cymeradwyo:** | Y Cyngor |
| **Dyddiad Cymeradwyo:** | |
| **Perchennog y Polisi:** | Ysgrifennydd y Brifysgol |
| **Swyddog Polisi:** | |
| **Statws y Polisi:** | Adolygiad |
| **Fersiwn:** | 3 |
| **Dyddiad adolygu:** | Mai 2026 |

# Ordinhad 31
# Graddau er Anrhydedd a Chymrodoriaethau er Anrhydedd

1. Mae gradd er anrhydedd neu gymrodoriaeth er anrhydedd yn un o anrhydeddau mwyaf arwyddocaol Prifysgol Bangor ac mae'n darparu cyswllt gydol oes rhwng yr unigolyn a Phrifysgol Bangor. Mae dyfarnu graddau a chymrodoriaethau er anrhydedd hefyd yn cefnogi'r broses o ehangu rhwydwaith y brifysgol o gefnogwyr a chysylltiadau o fri. Mae'r Brifysgol yn croesawu cynigion yn benodol sy'n adlewyrchu amrywiaeth ddiwylliannol a chymeriad rhyngwladol y brifysgol ac sy'n hyrwyddo ei hymrwymiad i gydraddoldeb ac amrywiaeth.

2. Mae'r Cyngor wedi dirprwyo'r weithdrefn ar gyfer enwebu unigolion am raddau a chymrodoriaethau er anrhydedd i'r Pwyllgor Graddau a Chymrodoriaethau er Anrhydedd a fydd, ar ôl dilyn y weithdrefn isod, yn cymeradwyo enwebiadau'r unigolion hynny y credant y dylent dderbyn y dyfarniadau hyn i'r Cyngor eu cymeradwyo.

3. <u>Graddau y gellir eu cyflwyno</u>

3.1 Dyma'r graddau er anrhydedd y gellir eu cyflwyno gan Brifysgol Bangor:

Doethur mewn Diwinyddiaeth (DD);
Doethur yn y Gyfraith (LLD);
Doethur mewn Meddygaeth (MD);
Doethur mewn Llawfeddygaeth Ddeintyddol (DDS);
Doethur mewn Llên (DLitt);
Doethur mewn Gwyddoniaeth (DSc);
Doethur mewn Cerddoriaeth (DMus);
Doethur mewn Gwyddoniaeth mewn Gwyddorau Cymdeithas (DSc (Gwyddorau Cymdeithas));
Doethur Addysg (DEd)
Doethur mewn Gweinyddu Busnes (DBA)

3.2 Gall y brifysgol ddewis cyflwyno Cymrodoriaeth er Anrhydedd. Mae'r teitl yn cydnabod rhagoriaeth ragorol mewn maes academaidd a/neu gyfraniad penodol a chyson dros gyfnod o amser i fywyd y brifysgol, yn lleol, yn genedlaethol neu'n rhyngwladol. Byddai Cymrodoriaethau er Anrhydedd fel rheol yn cael eu cyflwyno i unigolion sydd wedi gwneud cyfraniadau o berthnasedd uniongyrchol a/neu fudd i'r Brifysgol.

4. <u>Meini prawf ar gyfer dyfarnu Graddau er Anrhydedd neu Gymrodoriaethau er Anrhydedd</u>

4.1 Bydd y canlynol yn cynrychioli'r meini prawf i'w hystyried ar gyfer dyfarnu gradd neu gymrodoriaeth er anrhydedd:

a) Cyflawniad a rhagoriaeth wirioneddol mewn gweithgaredd sy'n cyd-fynd â chenhadaeth, gwerthoedd a strategaeth y brifysgol, gan gynnwys: ysgolheictod, hyrwyddo dysgu, amrywiaeth lles a chyfrifoldeb cymdeithasol, creadigrwydd ac arloesedd, menter, gwasanaeth cyhoeddus; neu arddangosiad sylweddol o rinweddau personol sy'n dangos gwerthoedd y brifysgol, gan gynnwys: uniondeb, ymdrechu am ragoriaeth, gwytnwch a dewrder.

b) Gyda digon o statws proffesiynol a phersonol i fod yn esiampl ac o ddiddordeb i fyfyrwyr israddedig ac ôl-raddedig sy'n dod i'r seremoni raddio, ac i'w teuluoedd.

c) Cysylltiad presennol rhwng yr unigolyn a'r Brifysgol, neu gysylltiad posib yn y dyfodol.

4.2 Mae cynwysoldeb ac amrywiaeth yn elfennau pwysig o strategaeth Prifysgol Bangor. Felly mae croeso arbennig i enwebiadau ar ran merched a grwpiau eraill sydd heb gynrychiolaeth ddigonol, sy'n gwella amrywiaeth gyffredinol graddedigion er anrhydedd y brifysgol.

4.3 Mae'r brifysgol wedi cytuno, gydag ychydig iawn o eithriadau, y byddai'n amhriodol dyfarnu graddau er anrhydedd ar y canlynol:

a) Unigolion sy'n gyflogedig ar hyn o bryd gan Brifysgol Bangor. Weithiau, gallai cyn-weithwyr y brifysgol gael eu hanrhydeddu am wasanaeth eithriadol i'r brifysgol a gallai cyn aelodau staff academaidd sy'n cadw cysylltiad er anrhydedd â'r brifysgol (e.e. Athrawon Emeritws) gael eu hystyried mewn rhai achosion, os yw eu cyflawniad penodol wedi cael effaith unigryw y tu hwnt i'r hyn sy'n arferol.

b) Gwleidyddion ar wasanaeth, a'r rhai a gyflogir gan eu swyddfeydd.

4.4 Ystyrir nad yw'r cyflawniadau canlynol yn rheswm digonol ynddynt eu hunain dros eu hystyried:

a) mewn swydd gyhoeddus etholedig ar hyn o bryd;

b) gweithredoedd dyngarol, gan gynnwys tuag at Brifysgol Bangor;

c) wedi derbyn llawer o ganmoliaeth

Ond ni fyddent yn rhwystr i'w hystyried pe bai un neu fwy o'r meini prawf a nodir yn 4.1 uchod yn cael eu bodloni.

4.5 Mae Cymrodoriaethau er Anrhydedd yn nodedig a chânt eu dyfarnu i unigolion sydd â chysylltiad sylweddol â'r brifysgol, neu gofnod o wasanaeth personol i'r brifysgol ac sydd eisoes â gradd er anrhydedd gan y brifysgol.

5. <u>Y Broses</u>

5.1 Bydd Ysgrifennydd y brifysgol yn gofyn am enwebiadau gan bob aelod staff, gan Undeb y Myfyrwyr, gan aelodau'r Cyngor a chan gyn-fyfyrwyr yn ystod yr hydref ym mhob blwyddyn academaidd.

5.2 Derbynnir enwebiadau gan unigolion allanol, ar yr amod bod yr enwebiad yn cael ei gefnogi gan aelod staff yn y brifysgol.

5.3 Caiff y Pwyllgor Graddau a Chymrodoriaethau er Anrhydedd ei gynnull, a bydd yn ystyried pob enwebiad, ac yn cytuno ar restr arfaethedig o argymhellion a gânt eu trafod a'u cytuno gan yr aelodau. Cyflwynir y rhestr derfynol i'r Cyngor ei chymeradwyo fel rheol yn ei gyfarfod ym mis Ebrill.

5.4 Bydd Ysgrifennydd y brifysgol yn darparu adborth i'r rhai sydd wedi enwebu unigolion, gan gynnwys adborth ar enwebiadau aflwyddiannus.

5.5 Bydd y Pwyllgor Graddau a Chymrodoriaethau er Anrhydedd a'r Cyngor yn cadw cyfrinachedd llwyr mewn perthynas â'r rhai sy'n cael eu henwebu nes bydd y Cyngor wedi cymeradwyo eu henwebiad, a bod yr unigolyn ei hun wedi derbyn.

5.6 Bydd rhaid i enwebiadau i Ysgrifennydd y brifysgol gynnwys y canlynol:

a) Cyflwyniad ategol ar ffurflen a ddarperir, gan gynnwys datganiad rhagarweiniol yn nodi'r prif seiliau dros y rhagoriaeth;

b) Hanes cronolegol, byr o fywyd a gwaith yr enwebai;

c) Amlinelliad o gyflawniadau mwyaf arwyddocaol yr enwebai;

d) Asesiad o'u statws ar sail cymhariaeth ryngwladol neu ym mywyd gogledd Cymru, Cymru neu'r Deyrnas Unedig. Cysylltiad â gogledd Cymru neu Gymru (gan roi tystiolaeth o'r budd a ddaeth i'r brifysgol neu'r ardal), neu os nad oes hynny, unrhyw gysylltiad sylweddol â gwerthoedd y brifysgol;

e) Awgrym ar ba anrhydedd y mae'r unigolyn sy'n gwneud yr enwebiad yn ei ystyried yn fwyaf priodol, er mai'r Pwyllgor Graddau a Chymrodoriaethau er Anrhydedd fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol, ac

e) unrhyw wybodaeth arall yr hoffai'r cynigydd ei dwyn i sylw'r pwyllgor.

Dylai enwebiadau hefyd, lle bo hynny'n berthnasol, gynnwys manylion am weithiau cyhoeddedig yr enwebeion mewn atodiad.

5.7 Dan amgylchiadau eithriadol gall y Pwyllgor Graddau a Chymrodoriaethau er Anrhydedd wneud argymhelliad i ddyfarnu gradd er anrhydedd neu gymrodoriaeth er anrhydedd ar ôl marwolaeth yr unigolyn dan sylw.

6. <u>Pwyllgor Graddau a Chymrodoriaethau er Anrhydedd</u>

6.1 Mae'r Pwyllgor Graddau a Chymrodoriaethau er Anrhydedd yn bwyllgor sy’n cael ei gynnull i roi argymelliadau ar gyfer dyfarnu Graddau a Chymrodoriaethau er Anrhydedd i'r Cyngor, ac mae’n un o bwyllgorau'r Cyngor. Bydd aelodaeth graidd y Pwyllgor Graddau a Chymrodoriaethau er Anrhydedd fel a ganlyn:

- Cadeirydd y Cyngor (cadeirydd y pwyllgor);
- Is-ganghellor;
- Dirprwy i’r Is-ganghellor;
- Tri aelod annibynnol o'r Cyngor
- Dirprwy Is-ganghellor (Y Gymraeg, Cenhadaeth Ddinesig a Phartneriaethau Strategol)
- Deon pob coleg
- Prif Swyddog Marchnata
- Ysgrifennydd y Brifysgol

6.2 Gall y Pwyllgor Graddau a Chymrodoriaethau er Anrhydedd gyfethol unrhyw aelodau o staff academaidd a/neu broffesiynol yn aelodau yn ôl yr angen, gan ddibynnu ar natur yr enwebiadau yn ystod unrhyw flwyddyn academaidd benodol.

6.3 Cadeirydd y Pwyllgor fydd Cadeirydd y Cyngor. Bydd Ysgrifennydd y Cyngor yn gweithredu fel Ysgrifennydd y Pwyllgor Graddau a Chymrodoriaethau er Anrhydedd.

7. Cyflwyno Gradd/Cymrodoriaeth

7.1 Gellir cyflwyno Graddau er Anrhydedd a Chymrodoriaethau er Anrhydedd yn unrhyw un o seremonïau graddio’r Brifysgol yn ystod blwyddyn academaidd, ac nid ydynt yn gyfyngedig i'r seremonïau a gynhelir bob haf, neu o reidrwydd i seremonïau a gynhelir ym Mangor.

7.2 Ni fyddai graddau a chymrodoriaethau er anrhydedd fel rheol yn cael eu cyflwyno *in absentia*. Pan na fydd y sawl fydd yn derbyn yr anrhydedd yn gallu dod i seremoni raddio, neu'n anfodlon gwneud hynny, i dderbyn yr anrhydedd, gallai hyn atal cyflwyno'r radd neu'r gymrodoriaeth. Mewn achosion o'r fath, gwahoddir yr unigolyn i ddod i seremoni arall yn y dyfodol. Fodd bynnag, dan amgylchiadau eithriadol, gall y brifysgol ddewis cyflwyno’r radd/gymrodoriaeth er anrhydedd mewn seremoni raddio arbennig yn ystod y flwyddyn academaidd.

7.3 Gwahoddir y derbynnydd i ddod i'r seremoni raddio sy'n cyd-fynd agosaf â chefndir academaidd neu gefndir arall yr unigolyn, a bydd yn cael ei wahodd i annerch y gynulleidfa yn y seremoni, ar ôl cyflwyno'r radd neu'r gymrodoriaeth.

8. Gweithdrefn Tynnu’n ôl Radd er Anrhydedd / Cymrodoriaeth er Anrhydedd

8.1 Gellir ystyried tynnu’n ôl Radd er Anrhydedd / Cymrodoriaeth er Anrhydedd dim ond ar ôl derbyn gwybodaeth newydd sylweddol yn unig nad oedd, am reswm da, ar gael i'r Pwyllgor Graddau a Chymrodoriaethau er Anrhydedd, pan argymhellwyd yr enwebai dan sylw i’r Cyngor ddyfarnu’r wobr iddo/iddi.

8.2 Bydd y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu yn ystyried tynnu’n ôl radd neu gymrodoriaeth er anrhydedd yn ôl yn dilyn cais gan un o bwyllgorau ffurfiol y brifysgol o ganlyniad i bleidlais fwyafrifol. Yn ogystal, gall yr Is-ganghellor gyfeirio achos i'w adolygu. Dylid anfon cais o'r fath, yn y lle cyntaf, at Ysgrifennydd y brifysgol.

8.3 Bydd y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu yn cynnal adolygiad o'r achos, gan geisio cyngor yn ôl yr angen gan aelodau eraill o'r Brifysgol, ac os yw'n berthnasol i wneud hynny, gan unigolion a sefydliadau allanol. Yn ogystal, a lle bo hynny'n bosib, gwahoddir deiliad y radd neu'r gymrodoriaeth er anrhydedd i roi sylwadau ar y cynnig i dynnu'n ôl yr anrhydedd.

8.4 Bydd y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu yn gwneud penderfyniad ar y mater, gan gysidro unrhyw sylwadau a wneir gan ddeiliad yr anrhydedd. Bydd unrhyw benderfyniad yn cael ei adrodd i gyfarfod nesaf y Cyngor, gan gynnwys unrhyw sylwadau a wneir gan ddeiliad yr anrhydedd. Penderfyniad y Cyngor yw tynnu’n ôl radd neu gymrodoriaeth er anrhydedd, a bydd ei benderfyniad yn derfynol.

8.5 Bydd Ysgrifennydd y Cyngor, ar ran Cadeirydd y Cyngor, yn cyfleu penderfyniad y Cyngor i ddeiliad yr anrhydedd, gan gadarnhau bod y radd neu'r gymrodoriaeth wedi'i thynnu'n ôl.

9. Perthynas â Derbynwyr Graddau a Chymrodoriaethau er Anrhydedd

9.1 Mae derbyn gradd neu gymrodoriaeth er anrhydedd gan Brifysgol Bangor yn sefydlu cyswllt gydol oes. Byddai'r Brifysgol felly am gadw mewn cysylltiad â'i graddedigion er anrhydedd, a gwahoddir unigolion sy'n derbyn Graddau a Chymrodoriaethau er Anrhydedd Prifysgol Bangor:

a) i gyflwyno darlith neu gyfres o ddarlithoedd naill ai i'r Ysgol berthnasol neu grŵp penodol o fyfyrwyr a staff, neu fel rhan o gyfres darlithoedd cyhoeddus y brifysgol;

b) i seremonïau graddio yn y brifysgol;
c) i'r cinio Graddau a Chymrodoriaethau er Anrhydedd.

9.2 Bydd rhestr o raddedigion er anrhydedd y brifysgol yn cael ei chynnwys ar wefan y brifysgol, a bydd detholiad o'r rhai sy'n cael eu hanrhydeddu yn cael eu harddangos ym mhob seremoni raddio.

9.3 Bydd yr holl wybodaeth ddiweddaraf ar y cyfryngau cymdeithasol ac i'r wasg mewn perthynas â derbynwyr graddau a chymrodoriaethau er anrhydedd yn cael ei goruchwylio gan Dîm Cyfathrebu a Brand y brifysgol.